**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 10-01(p2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 6 Mehefin 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm i 4.55pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

# ADRODDIAD AR GYNNYDD Y CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG

## Diben

1. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y cynnydd a wnaed gan Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r partneriaid eraill o ran rhoi Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ar waith.

## Crynodeb / Argymhellion

2. Ers i'r Cynllun gael ei gymeradwyo, mae'r broses o roi'r mesurau a ddewiswyd ar waith wedi bod ar droed. Mae cynlluniau Tir Mynydd, Tir Gofal, y Cynllun Ffermio Organig a'r cynlluniau coedwigo eisoes yn weithredol. Bydd y mesurau eraill yn weithredol yn ddiweddarach eleni.

## Cefndir

3. Cymeradwywyd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-06 gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 11 Hydref 2000. Mae'n gymwys i Gymru gyfan heblaw am y rhai hynny sydd yn amlwg yn ardaloedd trefol ac wedi eu datblygu a bydd yn darparu 149.57 miliwn Ewro o adran Warantu'r EAGGF.

## Ystyriaeth

4. Efallai y byddai'n haws ymdrin â phob mesur fel y mae'n ymddangos yn y Cynllun:

- Buddsoddi mewn Daliadau Amaethyddol

5. Bydd tri chynllun wedi eu targedi at wahanol fathau o weithgaredd, a fydd yn gweithredu ar wahanol gyfraddau grant er mwyn adlewyrchu natur y gweithgarwch a gefnogir. Ar gyfer y Grant Gwella Fferm, sydd yn bennaf yn ceisio gwella isadeiledd ffisegol y daliad a lles anifeiliaid, y gyfradd fydd 20%. Ar gyfer y Grant Menter Ffermydd a'r Grant Proseswyr Bwyd Bach, sy'n annog ffermwyr i arallgyfeirio, y gyfradd fydd 30%. Ar gyfer ffermwyr ifanc cynyddir y cyfraddau grant hyn gan 10% i 30% a 40% yn eu trefn. Gallai'r cyfraddau hyn fod yn agored i adolygiad pellach pan fydd lefelau'r sawl sydd wedi dangos diddordeb wedi eu sefydlu.

6. Mae dogfennau ymgeisio a chanllawiau ar ffurf drafft terfynol, ac mae'r prosesau rhoi ar waith, asesu

a monitro hefyd wedi datblygu'n dda. Bydd Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu'r cynlluniau Grant Gwella Ffermydd a Grant Menter Ffermydd, ac yn sgil eu cylch gwaith o dan y Strategaeth Bwyd Amaeth i hwyluso datblygiad prosesu gwerth ychwanegol yng Nghymru, Awdurdod Datblygu Cymru fydd yn gweithredu'r Cynllun Proseswyr Bwyd Bach.

- Hyfforddiant

7. Bydd materion hyfforddiant, rhannu arferion gorau, trosglwyddo technoleg ac eitemau eraill a nodwyd yn Adran 9.6 o'r Cynllun yn cael eu cyflwyno trwy Cyswllt Ffermio, a fydd yn cael ei lansio yn ddiweddarach eleni.

- Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel (HLCA)

8. Disodlwyd dulliau'r HLCA gan y Cynllun Tir Mynydd ar 1 Mawrth 2001. Anfonwyd ffurflen gais atodol, ynghyd â llyfryn esboniadol, at holl ymgeiswyr IACS 2000 oedd â chwech o hectarau o leiaf o dir porthiant ffafrus a oedd yn darparu cyfle i geisio am welliannau gan Dir Mynydd. Y cais ar gyfer Tir Mynydd 2002 fydd y Cais am Gymorth Arwynebedd IACS. Dechreuodd y gwaith o brosesu taliadau Elfen 1 ar 2 Mawrth 2001. Erbyn diwedd Mawrth 2001, gwnaed cyfanswm o £34.9 miliwn mewn taliadau i dros 10,000 o ymgeiswyr.

9. Caiff y taliadau Elfen 2 sy'n ymwneud â'r Gwelliannau Amgylcheddol eu prosesu yn fuan.

- Amaeth-amgylcheddol

***Tir Gofal***

10. Llofnodwyd cyfanswm o 230 o gytundebau yn cynnwys tua 24,000 o hectarau ers canol mis Hydref. Mae'r trydydd cyfnod gwneud ceisiadau yn dal ar agor gan fod y dyddiad cau wedi ei estyn i roi cyfrif am CTG. Er na all ymweld â ffermydd ar hyn o bryd, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cyflwyno gweithdrefnau arbennig sy'n caniatáu ar gyfer parhau i lofnodi cytundebau, ar yr amod y gellir cael rhywfaint o wybodaeth o arolygon blaenorol a ffynonellau eraill. Yn ogystal â hyn, er mwyn helpu gyda rheoli'r fferm o ddydd i ddydd, caiff cyfran o daliad blynyddol Tir Gofal ar gyfer bob fferm ei dalu ymlaen llaw bellach.

***Y Cynllun Ffermio Organig***

11. Agorodd yr ail gyfnod gwneud ceisiadau ar 1 Tachwedd 2000. Hyd yma, rydym wedi derbyn tua 520 o geisiadau gan ffermwyr o dan y cynllun, gan ddod â thua 40,000 o hectarau o dir naill ai i'w newid yn organig neu i gynhyrchu organig cyflawn. Ym mlwyddyn ariannol 2000-01, talwyd £3.1 miliwn i ffermwyr mewn grantiau.

- Prosesu a Marchnata

12. Yr elfennau allweddol fydd y Grant Prosesu a Marchnata (PMG), a fydd yn anad dim yn denu cwmnïau mwy o faint, a’r Grant Proseswyr Bwyd Bach a fydd yn gweithredu ar yr un egwyddorion ond a gaiff eu targedu at gwmnïau llai ac at brosiectau sy’n costio llai na £40,000 (y trothwy cost isaf ar gyfer PMG).

13. Cynhyrchwyd ffurflenni cais drafft, canllawiau i ymgeiswyr ac arweiniad ar asesu a gweinyddu ar gyfer y ddau gynllun. Mae’r cynlluniau ar waith ar hyn o bryd ym maes Amcan 1 drwy brosiect Trac Cyflym Bwyd-Amaeth a bydd yn weithredol ledled Cymru gyfan cyn bo hir. Bydd Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithredu’r cynlluniau hyn yn unol â’u cylch gwaith o dan y strategaeth Bwyd Amaeth i helpu’r gwaith o ddatblygu prosesu gwerth ychwanegol yng Nghymru, gyda chymorth gan Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar asesu a monitro.

- Coedwigaeth

***Coedwigo***

*Cynllun Premiwm Coetir Fferm*

14. Mae’r cynllun yn cael ei weithredu’n llawn

***Coedwigaeth***

*Cynllun Grant Coetir*

15. Datblygodd y Cynllun Grant Coetir i fod y prif becyn ariannu sydd ar gael i annog y gwaith o blannu a rheoli coetir sy’n bodoli eisoes. Mae’r cynllun yn cynnwys Grantiau Gwella Coetir, ychwanegiadau at leoliadau a chyllid her ar gyfer mathau penodol o reolaeth, a phlannu. Mae cyllid her (fel arfer o fewn ystod o 60 i 80% o’r costau) ar gyfnod prawf o dair blynedd a phrofodd i fod yn llwyddiannus yn gyffredinol gan gynyddu plannu a dod â choetiroedd diffaith neu anhygyrch o dan reolaeth. Mae’r Comisiwn Coedwigaeth yn parhau i gyflawni’r targedau ar gyfer coedwigaeth o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig drwy’r cynllun hwn. Mae’r dull cyflawni yn debygol o gael ei adolygu yng ngoleuni Strategaeth Coetir Cymru y Cynulliad, sydd ar fin cael ei gyhoeddi ar ddechrau haf 2001.

16. Mae’r Comisiwn Coedwigaeth hefyd yn gweithio ar weithredu amrywiaeth o fesurau o dan Raglen Amcan 1 i ychwanegu at y gweithgareddau a ddarperir drwy’r Cynllun.

- Erthygl 33 – Hybu’r gwaith o Addasu a Datblygu Ardaloedd Gwledig

17. Mae’r mesurau a gefnogir o dan Erthygl 33 fel a ganlyn:

- Gwasanaethau sylfaenol ar gyfer yr economi a’r boblogaeth wledig (5);
- Adnewyddu a datblygu pentrefi a diogelu a gwarchod treftadaeth wledig (6);
- Arallgyfeirio gweithgareddau amaethyddol a gweithgareddau sy’n agos i amaethyddiaeth er mwyn darparu aml-weithgareddau neu incwm arall (7);
- Annog gweithgareddau’n ymwneud â thwristiaeth a chrefftau (10);
- Diogelu’r amgylchedd mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwarchod y tirlun yn ogystal â gwella lles anifeiliaid (11).

18. Bydd Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn gweithredu (7) ac (11), yn eu trefn, i gyfateb i’r Cynllun Tir Gofal. Mae Is-adran Polisi Cefn Gwlad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried cynigion ar gyfer (5), (6) a (7) ar hyn o bryd.

**Cyswllt**
Mrs Terri Thomas, yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio, rhif ffôn 5471.